



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun, Ebrill 25, 2016 yn Siambr y Cyngor am 7 o'r gloch.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Monday April 25 2016 at 7pm.

Presennol / Present: Gareth W Roberts OBE, Myrddin W Owens, Gwynn Jones, Meg Roberts, Mike Roberts, Miriam Sanders, Gordon Warren, Cyng/Cllr Aled M Jones, Cyng/Cllr Wil Hughes, Rhun ap Iorwerth, Gwilym Morris (Cyngor Cymuned Rhosybol Community Council), Derek Owen (Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council), Dafydd Griffiths (Cyngor Cymuned Llanelian Community Council).

Yn bresennol / In attendance: Carli Evans-Thau (clerc / clerk), Hywel Hughes (cyfieithu / translation)

Ymddiheuriadau / Apologies: Nige Ault, Val Roberts, Gareth Owen, Wayne Jones, Cyng/Cllr Richard Jones

- 1** Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gareth W Roberts ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod. Esboniwyd bod cynrychiolwyr o Gynghorau Cymuned Gogledd Mon wedi eu gwahodd ar gyfer trafodaeth gyda Rhun ap Iorwerth ac fe diolchwyd iddynt am fod yn bresennol.

The meeting was chaired by Gareth W Roberts who welcomed all to the meeting. It was explained that representatives from the North Anglesey Community Councils had been invited for the discussion with Rhun ap Iorwerth and they were thanked for their attendance

- 2** **Trafodaeth ag Rhun ap Iorwerth / Discussion with Rhun ap Iorwerth**

Fe ddiolchodd Rhun ap Iorwerth am y cyfle i gael cyfarfod a Chyngor Tref Amlwch a Chadeiryddion Cynghorau Cymuned Gogledd Mon. Fe bwysleisiodd nad oedd yn Aelod Seneddol mwyach. Fe gydnabyddwyd bod Cyngor Tref Amlwch wedi bod yn ceisio trefnu iddo fynychu cyfarfod y Cyngor ers rhai misoedd bellach.

Cafwyd cyflwyniad cryno gan Rhun ap Iorwerth am yr hyn y teimlai ef oedd prif bryderon yr ardal sef colli gwasanaethau (swyddfa bost, banc, cymunedau'n gyntaf), prosiect Wylfa Newydd a'r angen i sicrhau bod yr ardal yn elwa o unrhyw ddatblygiadau. Cydnabyddwyd bod yr Ynys yn ei gyfanrwydd angen cefnogaeth i ddenu busnesau i'r ardal a'i bod yn bwysig nad oedd unrhyw gronfeydd a chefnogaeth yn cael eu cadw'n ganolig; mae'n bwysig iawn bod yr ardaloedd ymylol hefyd yn cael cefnogaeth.

Mae teimlad cryf yn yr ardal bod unrhyw arian a datblygiadau yn ymwneud a gwelliannau cymunedol ar sail Wylfa Newydd yn cymryd lle ochrau Caergybi a Bodedern neu yn cael ei gadw'n ganolig. Mae Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon wedi ei ffurfio er mwyn rhoi cyfle i'r cynghorau lleol gydweithio. Maent eisioes wedi cwrdd a phrif swyddogion Horizon ac wedi trafod pryderon megis y lon (A5025). Mae'r ardal yn gwrthwynebu gwerysll dros dro i weithwyr Horizon ac yn gefnogol o ddatblygu safle Rhosgoch at ddefnydd gweithwyr. Mae'r Cyngor Tref hefyd wedi cyfarfod a pherchnogion y safle i ddatgan eu cefnogaeth ac felly mae i fynu i'r cwmni hwnw a Horizon drafod ymhellach.

Cafwyd trafodaeth ar y broses o ail-enwi tai mewn ardal wledig. Mae nifer o dai gyda ennwau

hanesyddol wedi eu ail-enwi yn ardal Llanelian yn ddiweddar. Er bod gan y Cyngor Sir broses swyddogol i wirio enwau tebyg yn yr ardal a hysbysu'r gwasanaeth post a diweddarau mapiau, ymddengys mai dim ond 4 ty sydd wedi dilyn y broses yma yn yr ugain mlynedd diwethaf. Nodwyd bod polisi'r Cyngor Sir wedi ei fabwysiadu bellach ond nad oes gorfodaeth i gydymffurfio. Bydd stadau tai o'r newydd yn cael eu henwi ag enwau Cymreig neu dwy-ieithog. Fe gynnigodd y Cyngorwyr Sirol Cyng Wil Hughes ac Aled M Jones edrych i fewn i'r mater ac adrodd yn ol i Gyngor Llanelian.

Trafodwyd pwysigrwydd toiledau cyhoeddus o fewn ein cymunedau. Teimlwyd bod y Cyngor Sir yn rhoi pwysau ychwanegol ar Gyngorau Cymuned i gymryd cyfrifoldeb er mwyn diogelu gwasanaethau. Cadarnhawyd bod Cyngor Cymuned Llanbadrig yn ddiweddar wedi cymryd cyfrifoldeb am ddau uned o doiledau yng Nghemaes am gost o £10,000 y flwyddyn. Mae angen edrych ar y ffordd mwyaf effeithiol o reoli'r cyfleusterau – y treth dalwr sydd yn talu pryn ai'r Cyngor Sir ynteu'r Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am reolaeth. Cytuno bod angen edrych eto ar y cynllun gyda busnesau lleol i gynnig taliadau blynyddol am adael i'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau.

Fe nodwyd bod rhai pobl yn cael yr argraff ac yn teimlo bod y Cynulliad yn anwybyddu Gogledd Cymru ond am Rhyl a Chaerdybi. Beth am yr ardaloedd eraill? Cafwyd yr argraff bod cymunedau megis Caerdybi yn chwilio am brosiectau newydd i allu gwario yr arian sydd ar gael iddynt. Cydnabyddwyd bod angen edrych ar maint y boblogaeth, maint y buddsoddiad ac angen yr ardal/boblogaeth dros Gymru gyfan. Nid yw'r Gyngorau'n bresennol am dynnu arian o lefydd eraill ond am gael gweld buddsoddiad yn cael ei rannu'n de gar draws yr ynys.

Mae Ynys Mon, ac Amlwch yn benodol yn bell o pob man – mae angen buddsoddiad mewn strwythau a seilwaith h.y. lonydd, gwasanethau heddlu, gwasanaethau ambiwlans ayyb cyn i Wylfa newydd nac unrhyw ddiwydiant arall ddod i'r ardal. Mae twristiaeth yn bwysig, ond mae angen gwaith hyrwyddo i ddenu pobl i'r ardal.

Mae busnesau bychain a phobl hunan gyflogedig angen cymorth a chefnogaeth i sefydlu eu gwaith yn yr ardal heb eu bod yn cael eu tynnu i ardaloedd eraill, wedi eu denu gan grantiau sydd ar gynnig. Mae angen i'r Cynulliad ddod i gytundeb i gynnig pecyn deniadol i gwmnïau sydd am sefydlu yn dalgylch Amlwch. Pwysleiswyd bod Partneriaeth Gyngorau Gogledd Mon wedi ei ffurfio er mwyn galluogi i'r chwech Cyngor gydweithio a bod yn gorff cryfach mewn trafodaethau ag awdurdodau a datblygwyr posib.

Cydnabyddwyd bod colli cynllun Cymunedau'n Gyntaf wedi bod yn golled enfawr i ardal Amlwch – a hynnu gan fod y rhaglen wedi bod mor llwyddianus. Cytuno byddai angen i unrhyw 'barth diwydiannol' (*enterprise zone*) gynnig yr un peth neu yn debyg i safleoedd tebyg yn Lloegr er mwyn sicrhau cystadleuaeth teg i fusnesau sefydlu a datblygu. Cytuno byddai o fudd i'r ardal petai Ynys Mon yn ei gyfanrwydd wedi ei glustoni yn 'barth diwydiannol'.

Fe ofynwyd beth oedd barn Rhun ap Iorwerth ar ddatblygiadau megis ffermydd arae haul ar dir amaethyddol. Fe gytunodd byddai angen i'r datblygiad gael effaith positif ar y gymuned. Nid oedd gwrthwynebiad i brosiectau cymunedol a fyddai gwirioneddol o fudd i'r cymunedau hynnu. Rhaid cofio byddai angen i unrhyw ddatblygiad trydanol gael ffordd o gysylltu i'r grid unai gyda peilonau neu fel arall. Cafwyd trafodaeth byr ar wahanol ffyrdd posib o gynhyrchu trydan ym Mon. Teimlai'r ardal bod 'Ynys Ynni' yn golygu ardal Amlwch, Cemaes a Rhosybol, a bod prosiectau ynni yn cael eu gwthio i'r ardal yn groes i'r gymuned.

Nodwyd bod arian grant ar gael o bosib gan Menter Mon tuag at brosiectau ynni cymunedol. Dim ond dau gais sydd wedi eu cyflwyno hyd yma o Fon (o'i gymhau ag 20+ yng Ngwynedd). Cytuno dylid edrych am brosiectau posib a thrafod ymhellach.

Diolchwyd i Rhun ap Iorwerth am ei bresenoldeb a bu adael y cyfarfod am 7.45 ynghyd a Derek Owen, Gwilym Morris, Dafydd Griffiths a Mike Roberts.

Rhun ap Iorwerth thanked those present for the opportunity to meet with Amlwch Town Council and the Chairs of the North Anglesey Councils. He emphasised that he was no longer an AM. It was acknowledged that Amlwch Town Council has been trying to arrange for him to attend a meeting for the last three months.

Rhun ap Iorwerth gave a short presentation on what he felt were the main concerns in the area i.e. loss of services (post office, bank, communities first), Wylfa Newydd project, and the need to ensure that the area benefits from any developments. It was acknowledged that the Island in its entirety requires support to attract businesses to the area and that it is important that any funds and support made available is not kept centrally; it is important that the peripheral areas are also supported.

There is strong feeling in the area that any funding and community benefit from the Wylfa Newydd project is so far Holyhead and Bodedern way, or being kept centrally. The North Anglesey Councils' Partnership has been formed to give local councils an opportunity to work together. The Partnership have already met with Horizon's senior officers to discuss concerns e.g. the road (A2025). The area is opposed to a temporary camp in Amlwch for workers, but supports the development of the Rhosgoch site. The Town Council have also met with the owners of Rhosgoch site to confirm their support; it is therefore up to the owners and Horizon to discuss further.

Those present discussed the process of re-naming houses in rural areas. A number of houses with historical names have been re-named in the Llanelian area. Although the County Council have an official process to check similar names in the area and inform the post service and update map services. It appears that only 4 houses have been re-named officially in the Llanelian Ward in the last 20 years. It was noted that the County Council's policy has by now been formally adopted but there is no enforcement to conform. New housing estates are given Welsh or Bilingual names. It was proposed that the County Councillors Cllr Wil Hughes and Cllr Aled Jones look into the matter and report back to Llanelian Community Council.

The importance of public toilets in the community was discussed. It was felt that the County Council were putting additional pressure on the Community Councils to take responsibility in order to safeguard facilities. It was confirmed that Llanbadrig Community Council have recently taken responsibility for two units in Cemaes at a cost of £10 per annum. There is a need to look at what is the most cost effective way to manage the facilities – at the end of the day, it is the rate payer who is footing the bill be it the County Council or Community Council that is responsible for the facility.

It was noted that some people are under the impression that the Welsh Assembly ignores North Wales other than Rhyl and Holyhead. What about the other areas? The impression is given that communities such as Holyhead are always looking for new projects in order to spend the money that is available to them. It was acknowledged that the population size, level of investment and the needs of the population/area needs to be evaluated and addressed. The Councils present did not want to take money away from other areas, but wished to see investment being shared across the island.

Anglesey, and in particular Amlwch is far from everywhere – investment in infrastructure is required i.e roads, police, ambulance service etc before Wylfa Newydd and/or any other industry comes to the area. Tourism is important, but the area needs promoting.

Small businesses and self-employed people need help and support to establish their work in the area, without being moved onto other areas, attracted by grants on offer. The assembly needs to come to an agreement to offer an attractive package to companies who wish to establish themselves in the Amlwch area. It was emphasised that the North Anglesey Councils Partnership had been formed to enable, and give strength to the six councils in discussions with authorities and potential developers.

It was acknowledged that losing the Communities First scheme had been a big blow to the Amlwch area – and that as the scheme had been so successful. It was agreed that any 'enterprise zone' would need to offer a similar package to such areas in England in order to ensure fair competition for businesses to establish and develop. Agreed it would be of benefit to the area should Anglesey in its entirety be earmarked an enterprise zone.

Rhun ap Iorwerth was asked what his opinion was on developments such as solar farms on agricultural land. He agreed that any such development would need to demonstrate a positive effect on the local community. There was no objection to community projects that would genuinely benefit those communities. It must be remembered that any electricity generating projects need to join the grid in some manner either by pylons or otherwise. A short discussion followed on the possible ways of generating electricity on Anglesey. The area representatives felt that 'Energy

Island' meant Amlwch, Cemaes and Rhosybol, and that energy projects were being pushed to the area against the communities' wishes.

It was noted that grant funding was available via Menter Mon for community energy projects. Only two applications have been submitted for Anglesey based projects (in comparison to 20+ from Gwynedd). Agreed to look at possible project ideas and discuss further.

Rhun ap Iorweth was thanked for his attendance and he, along with Derek Owen, Gwilym Morris, Dafydd Griffiths and Mike Roberts left the meeting at 7.45.

3 Cofnodion y cyfarfod diwethaf / Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir. Cynnig gan Gordon Warren, pawb yn gytun.

The minutes of the last meeting were approved as a true record. Proposed by Gordon Warren, all in agreement.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Pwyllgor Cyllid / Finance Committee

Nodwyd bod cyfweiliad wedi cymryd lle cyn penodi'r clerwr newydd.

It was noted that an interview had taken place prior to the appointment of the new clerk.

4.2 Goleuadau Borth Amlwch Port Lights

Cafwyd cadarnhad bod y gwaith wedi ei gwblhau. Diolchwyd i'r Cyngwr Aled Morris Jones a Cyngwr Wil Hughes am eu gwaith a'u cydweithrediad gyda Cyngwr Tref Amlwch. Mae'r cynllun yma wedi atal £25,000 o gost i drethdalwyr Amlwch.

It was confirmed that the work has been completed. Cllrs Aled Morris Jones and Wil Hughes were thanked for their work and co-operation with Amlwch Town Council. This scheme has saved the

4.3 *Amlwch rate payers £25,000.*

Gosod Tai / House Lettings

Fe gadarnhaodd Cyngwr Aled M Jones y byddai yn anfon copi o bolisi gosod tai y Cyngwr Sir cyn gynted a phosib.

Cllr Aled M Jones confirmed that he would forward a copy of the County Council's lettings policy as soon as possible.

4.4 Casglu Gwastraff / Refuse Collections

Nodwyd bod sbwriel yn cael ei adael ar Mynydd Parys yn barod.

It was noted that refuse is already being left on Parys Mountain.

4.5 Swyddfa Bost / Post Office

Diolchwyd i Meg Roberts am ei gwaith i drefnu bysiau i bensiynwyr gael nol eu pensiwn yn wythnosol. Mae'r gwasanaeth wedi ei werthfawrogi'n arw. Fe nododd Gareth W Roberts ei fod yn ymwybodol o drafodaethau gyda'r Swyddfa Bost yn y dref ond nad yw am ddweud mwy na hynny ar hyn o bryd – o brofiad gan bod y gymuned wedi eu camarwain yn y gorffennol ar ffeithiau anghywir.

Meg Roberts was thanked for her work to arrange the busses for pensioners to fetch their weekly pensions. The service has been invaluable. Gareth W Roberts noted that he is aware of discussions with the Post Office in the town but won't be divulging any information for the time being – as past experience and mis-information was given and the community misled.

5 Pwyllgorau allanol / External meetings

5.1 Cafwyd grynodedb o gyfarfod Un Llais Cymru gan Meg Roberts. Nodwyd bod cwmni archwilio allanol newydd Llywodraeth Cymru (i archwilio cyfrifon pob Cyngwr Cymuned a Thref yng Nghymru) yn gwmni o Southampton. Mae'r pwyllgor eisioes wedi anfon llythyr yn datgan eu pryder.

Meg Roberts gave an overview of the One Voice Wales Meeting. It was noted that the external auditing company appointed by the Welsh Government (to audit the accounts of all Welsh Town and Community Councils) is a company from Southampton. The committee have already sent a letter to

voice their concerns.

6 Pwyllgor Cyllid a Staffio / Finance and Staffing Committee

Nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd ers y cyfarfod llawn diwethaf.
The committee have not met since the last full council meeting.

7 Pwyllgor Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Committee

Cafwyd grynoded gan Gwynn Jones o gyfarfod y pwyllgor ar eu taith o amgylch parciau a mannau agored sydd yn gyfrifoldeb ar y Cyngor. Nodwyd mai dim ond manion cynnal a chadw oedd angen eu gwneud yn waith chwynu a thwtio a bod ambell mainc angen ei thrin. Cadarnhawyd bod Andrew Ganderton eisioes wedi cael y rhestr gwaith. Dosbarthwyd gopi o gofnodion y cyfarfod i'r rheini oedd yn bresennol.

Gwynn Jones gave a summary of the committee meeting / site visits to all parks and open spaces that are the responsibility of the Council. It was noted that only maintenance work was required such as weeding, clearing and that some benches required maintenance. It was confirmed that Andrew Ganderton has already been given a list of the work required. Copies of the minutes from the meeting were distributed to those present.

8 Cynllunio / Planning

Roedd Cyng Wil Hughes yn datgan diddordeb ac ni gymerodd ran yn y drafodaeth.
Cllr Wil Hughes declared an interest and did not take part in the discussion.

Cyflwynwyd pump cais i'w ystyried / *Five applications were presented for consideration –*

- 24 Awelfryn (11C567A)
Pryderon am or-ddatblygu a phroblemau parcio. Gofyn i'r cais gael ei roi ger bron y Pwyllgor Cynllunio a bod ymweliad a'r safle yn cymryd lle. / *Concerns regarding over-development and parking issues. Request that the application be put to the Planning Committee and a site visit be arranged.*
- Eryl Mor (11C632) – dim gwrthwynebiad / *no objection*
- Ysgubor Bodgadfa (11C633) – dim gwrthwynebiad / *no objection*
- Old Builders Merchant's Yard (11C9H/VAR) - dim gwrthwynebiad / *no objection*
- Maes Ednyfed (11C288L) - dim sylw / *no observations*

9 Gohebiaeth / Correspondence

9.1 Gwyl Gopr / Copperfest

Cafwyd ebost gan bwyllgor yr wyl yn gofyn am ganiatad i gynnal y ddiwyddiad am y degfed tro eleni, a hefyd yn gofyn am gyfraniad ariannol. Ni welir unrhyw broblem gyda chynnal yr wyl ym Mhorth Amlwch ar yr amod bod copi o'r dystysgrif ywriant yn cael ei gyflwyno ymlaen llaw a chadarnhad na fydd unrhyw gyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor Tref. Bydd y cais am gyfraniad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid.

An email from the festival committee asking for permission to hold the event for the tenth time, and also for a financial contribution. No issues were foreseen with regard to staging the event at Amlwch Port on the condition that a copy of the insurance certificate is provided in advance and confirmation that no responsibility falls on the Town Council. The application for funding will be considered by the Finance Committee.

9.2 Cymdeithas Alzheimer / Alzheimer's Society

Gwybodaeth am wasanaeth newydd gan y gymdeithas sydd yn cael ei dreialu ar Ynys Mon.
Information regarding a new service being trialled by the Society on Anglesey.

10 Seddi Gwag / Empty Seats

Cadarnhawyd bod pump unigolyn wedi dangos diddordeb yn y seddi gwag a bod y panel yn bwriadu cyfweld a phenodi pnawn dydd lau Ebrill 28. Cadarnhawyd bod gan y Panel yr hawl i weithredu a phenodi aeldau. Fe ofynwyd os oedd rhaid cyfethol os nad oedd ymgeisydd addas. Bydd cadarnhau hyn os bydd y sefyllfa'n codi.

It was confirmed that five individuals had shown an interest in the vacant seats and that the panel were to interview and appoint on Thursday afternoon April 28. It was confirmed that the Panel were

given the Power to act to appoint members. It was asked whether the vacant seats had to be filled if the applicant(s) were unsuitable. This would be confirmed should the situation arise

11 Marchnad Amlwch Market

Cadarnhawd bod cytundeb wedi ei gyrraedd yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyngor Sir a bydd rhent wythnosol stondinau yn £10 yr wythnos o hyn allan. Nodwyd nad oedd arwyddion yn hysbysebu'r farchnad mwyach. Cytuno dylid trefnu eu ail osod cyn gynted a phosib. Diolchwyd i Cyng Wil Hughes a Cyng Aled Jones am eu gwaith.

It was confirmed that an agreement had been reached following discussion with the County Council and that the weekly rent for stall holders would be £10. It was noted that there were no signs promoting the market and it was agreed to arrange replacements as soon as possible. Cllrs Wil Hughes and Aled Jones were thanked for their work.

12 Grisiau Tai Pensiynwyr / Steps – Pensioners Bungalows

Nid oes diweddariad hyd yma ond cafwyd cadarnhad bod Cyng Aled M Jones wedi cysylltu a'r swyddogion priodol yn CSYM.

There is no update as yet but Cllr Aled M Jones confirmed that he had contacted the relevant officers at IACC.

13 Llyfrgell / Library

Cadarnhawd bod nifer o gwestiynau wedi eu gofyn i'r Cyngor Sir a bod Trefi Mon yn edrych ar wahanol opsiynau i'r pump tref gydweithio.

It was confirmed that a number of questions had been asked of the County Council and that Trefi Mon were looking at different options for co-operation between the five towns.

14 Fferm Arae Haul / Solar Farm

Cadarnhawd bod trafodaethau yn cymryd lle ynghyd a Chyngor Cymuned Llanbadrig. *It was confirmed that discussions were ongoing alongside Llanbadrig Community Council.*

15 Unrhyw fater arall / Any other business

15.1 *Mynwent / Cemetery*

Nodwyd bod y fynwent yn edrych yn dda a bod y gymuned yn ei ganmol. Cadarnhawd bod Gareth W Roberts yn aelod o Bwyllgor y Fynwent ond nad oedd wedi ei gynnwys ar y rhestr aelodaeth.

It was noted that the cemetery is looking good and praised in the community. It was confirmed that Gareth W Roberts was a member of the Cemetery Sub-committee although he had been omitted from the membership list.

15.2 *Stryd Salem Street*

Nodwyd bod pobl yn dal i yrru y ffordd anghywir ar hyd Stryd Salem. Mae'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r sefyllfa ac yn edrych i fewn i'r mater.

It was noted that people are still driving the wrong way up Salem Street. The County Council are aware of the situation and are looking into the matter.

15.3 *Fforwm Economaidd / Economic Forum*

Rhoddyd ganiatad i Gareth W Roberts wahodd unigolion, yn ychwanegol i gynghorwyr, i ffurfio Fforwm Economaidd ar gyfer Gogledd Mon.

Gareth W Roberts was given permission to invite individuals, in addition to councillors, to form an Economic Forum for North Anglesey.

16 Dyddiad y cyfarfod nesaf / Date of next meeting

Bydd y cyfarfod nesaf i'w gynnal nos Fawrth Mai 24, 2016.
The next meeting will be held on Tuesday May 24 2016.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.15. / *The meeting closed at 20.15.*